Diolch i ti, yr hollalluog Dduw

Caneuon Ffydd: Rhif 49

Diolch i ti, yr hollalluog Dduw,
am yr Efengyl sanctaidd.
Halelwia! Amen.

Pan oeddem ni mewn carchar tywyll, du
rhoist in oleuni nefol.
Halelwia! Amen.

O aed, O aed yr hyfryd wawr ar led,
goleued ddaear lydan!
Halelwia! Amen.

Y SALMYDD CYMREIG, 1840
priodolir i DAVID CHARLES, 1762–1834

MYFYRDOD

Ar yr olwg gyntaf does dim yn arbennig yn yr emyn sydd o'n blaenau. Cyfieithiad yw o emyn Americanaidd gan David Charles, Caerfyrddin, mae'n debyg. Ond os nad oes llawer i'w weld iddo, yna mae ei gyfoeth i'w gael yn ei symlrwydd. Dywedodd rhywun wrth sôn am Efengyl Ioan, fod digon o ddyfnder ynddi i eliffant ymdrochi a hefyd i aderyn bach wlychu ei big. Am y Newyddion Da syml hynny y ceir diolch yma gan ein hemynydd. Yr Efengyl sanctaidd honno sydd o fewn cyrraedd a gallu pob un ohonom i'w deall a'i derbyn, ond sydd â digon o ddyfnder ynddi i beri y bydd canu am dragwyddoldeb amdani, ac y gallwn ymgolli mewn rhyfeddod fyth wrth gofio'r un a fu yn ein plith yn ei chyhoeddi, gan ddweud: '"y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl"' (Marc 1:15).

Ar ôl cynnig ei ddiolchgarwch am yr Efengyl, mae'r emynydd yn rhoi'r rheswm dros wneud hynny, oherwydd iddi gael effaith bersonol arno ef ei hun. Mae e'n diolch am gael goleuni'r

Efengyl yn pelydru ei fywyd ac am gael ei ollwng yn rhydd i addoli Duw (Ex. 9:1). Mae'r diolch i'r hwn a'n 'gwaredodd ni o afael y tywyllwch, a'n trosglwyddo i deyrnas ei annwyl Fab' (Col. 1:13); cawsom newid ein hochr a'n tîm yn llwyr wrth iddo ef ein symud ni.

Mae delweddau o oleuni yn britho'r Beibl, y goleuni hwnnw sydd yn fwy na'r tywyllwch bob tro ac sydd yn agor byd o ryddid a chyflawnder o'i flaen. Galwodd Iesu ei hun yn 'oleuni'r byd' yn Ioan, gan ddweud: ' "Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd"' (Ioan 8:12). Yng nghwmni goleuni'r byd yr ydym yn dod yn oleuni ein hunain: 'tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd. Byddwch fyw fel plant goleuni' (Eff. 5:8).

O fod wedi derbyn y 'goleuni nefol' hwn, ni allwn beidio â dymuno, gweddïo a gweithredu er mwyn i'r goleuni hwn ddod yn brofiad i eraill hefyd, ac iddynt weld y goleuni hwn ynom ni yn llewyrchu ger eu bron (Mth. 5:16), a dod i roi gogoniant i'n Tad oherwydd hynny.

Ni fu mwy o ganu ar yr emyn hwn yn unlle, mi gredaf, nag yn eglwysi maes cenhadol y Methodistiaid Calfinaidd, mewn cyfieithiad wrth gwrs, ac i gyfeiliant brodorol y drwm yn aml, yn enwedig ym Mizoram yng ngogledd-ddwyrain India lle mae'r Efengyl wedi cael tir da ac wedi ffrwytho ar ei chanfed yno. Cof hyfryd sydd gennyf fi o weld cynulleidfa o dros ddeng mil ar hugain o Gristnogion yn canu cyfieithiad y cenhadwr Edwin Rowlands ohono wrth ddathlu canmlwyddiant cyrraedd yr Efengyl yno ym 1994:

'Aw Pathian, Nangman Chancin Tha min pe,
Lâwm thu kan hrilh che-azârah.
Haleluia, Amen.

GWEDDI

O Dad, rhown ddiolch a chlod iti am yr Efengyl sydd yn abl i'n rhyddhau o afael pob tywyllwch, gan oleuo ein bywydau yn llwyr. Cynorthwya ni i fod yn oleuni er dy fwyn, gan weddïo a gweithredu er gweld daear lydan yn cael ei goleuo. Halelwia! Amen.